# Atebion a roddwyd i Aelodau ar 30 Awst 2007

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig

**Nerys Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr union broses a ddilynir rhwng cynnal prawf cyntaf am TB a difa unrhyw anifail sy'n destun prawf TB positif, a rhoi amserlen y broses hon? (WAQ50313)

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones):** Bydd Swyddfeydd Rhanbarthol Iechyd Anifeiliaid (AHDO) yn ceisio symud anifeiliaid sy'n adweithyddion i TB o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn siart brofi wedi'i chwblhau'n gywir drwy gwblhau'r camau gweithredu isod:

- Caiff siart brofi ei derbyn mewn Swyddfa Ranbarthol Iechyd Anifeiliaid, bydd y Swyddog Milfeddygol ar Ddyletswydd (VO) yn edrych ar y dehongliad o'r siart prawf ac yn cysylltu â pherchennog y fuches gan ei hysbysu ei fod wedi dod o hyd i adweithydd - Diwrnod 1
- Bydd y Swyddog Milfeddygol ar Ddyletswydd yn sicrhau y caiff y fuches ei chadw o dan gyfyngiadau symud - diwrnod 1
- Caiff y siart prawf ei roi ar system gyfrifiadurol Iechyd Anifeiliaid a chaiff gwaith papur adweithydd TB ei gynhyrchu - diwrnod 2
- Bydd Iechyd Anifeiliaid yn trefnu prisiad o'r adweithydd—mae amseru'r prisiad yn dibynnu ar argaeledd perchennog y fuches, argaeledd y prisiwr sy'n defnyddio'r system cwmni tacsis yng Nghymru ac argaeledd aelod o staff Iechyd Anifeiliaid i fynychu'r prisiad ar yr un pryd - diwrnodau 3 i 7
- Bydd y prisio'n digwydd - bydd Iechyd Anifeiliaid yn rhoi tag adweithydd ar yr anifail, yn edrych ar y tagiau adnabod ac yn sicrhau bod yr anifail yn iach i deithio - diwrnod 8
- Bydd Iechyd Anifeiliaid yn trefnu lle mewn lladd-dy a chludiant i'r lladd-dy - bydd hyn yn dibynnu ar gapasiti lladd adweithyddion i TB o fewn y lladd-dy ar y diwrnod lladd TB nesaf sydd ar gael, gan adnabod yr adweithydd yn gywir â'r pasbort cywir a glendid yr anifail - diwrnodau 9 i 15
- Hysbysir perchennog y fuches am y dyddiad y caiff yr adweithydd ei symud - diwrnod 15
- Caiff yr anifail ei gasglu o'r fferm a'i gludo i'r lladd-dy i gael ei ladd y diwrnod hwnnw - diwrnod 16

Bydd Iechyd Anifeiliaid yn sicrhau y caiff pob ymdrech ei gwneud i leihau unrhyw oedi diangen yn ystod y broses hon. Er enghraifft, pan gaiff adweithyddion sydd wedi'u cadarnhau eu bod yn dioddef o'r haint eu symud, caiff rhai gwartheg yr ystyriwyd nad oedd ganddynt adwaith pendant o dan y dehongliad safonol o'r prawf croen yn flaenorol, eu hailddosbarthu fel adweithyddion o dan ddehongliad llym a bydd rhaid iddynt gael eu prisio a'u symud i ffwrdd. Pan fo'n bosibl, bydd Iechyd Anifeiliaid yn ceisio achub y blaen gyda hyn yn y broses brisio adweithyddion gychwynnol drwy brisio adweithyddion yr ystyriwyd nad oedd ganddynt adwaith pendant a allai ddod yn adweithyddion, yn rhagweithiol, er mwyn cyflymu'r broses o'u symud i ffwrdd wedi hynny.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Beth yw'r ffigurau ar gyfer cyfran y gwahanol fathau o bresgripsiynau a roddwyd rhwng 1996-7 a 2006-7? (WAQ50314)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Edwina Hart):** Caiff y wybodaeth hon sy'n ymwneud â rhagnodi gan feddygon teulu ei chynnwys yn Ystadegau Iechyd Cymru yn ôl dosbarthiad therapiwtig ac mae ar gael i'r cyhoedd. Mae'r cyhoeddiad ar gael fel copi caled yn ôl i 1995 ac o 2003-2007 ar Wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. (Gwelwer Atodiad A).

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ffordd y mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru'n dibynnu ar Wasanaeth Ambiwlans San Ioan yng Nghanol De Cymru? (WAQ50315)

**Edwina Hart:** Mae'r gwasanaeth ambiwlans yn gweithio'n agos gydag Ambiwlans Sant Ioan yn ystod cyfnodau o alw mawr yng nghanol Caerdydd, ac er y gallant ar adegau gael eu defnyddio fel gwasanaeth ymateb cyntaf yn ystod cyfnodau prysur iawn, ni chânt eu defnyddio yn lle adnoddau llinell flaen brys.

**Andrew RT Davies (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ailgyflunio'r gwasanaeth ambiwlans 24 awr yng Nghanol De Cymru? (WAQ50316)

**Edwina Hart:** Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn cynnal adolygiad o rotas gweithredol gan ddefnyddio proses i ragweld amseroedd 'galw brig ar gyfartaledd' ar gyfer galwadau brys ac argyfwng ac yn cyfateb nifer y criw i'r gweithgarwch. Mae'r newidiadau i'r rota yn cael eu cyflawni gan gynnwys y staff yn llwyr a bydd yn cynnwys elfen o weithio wrth gefn a fydd yn galluogi staff i gyflenwi ar gyfer absenoldeb sydd wedi'i drefnu ac absenoldeb nad yw wedi'i drefnu.

Y cam nesaf o'r broses ddatblygu yw rhoi haen Gwasanaeth Dibyniaeth Uchel ar waith a gaiff ei dargedu at y ceisiadau derbyn 'amser yn hanfodol' brys a wneir gan feddygon teulu. Golyga hyn y rhoddir y gwasanaeth blaenoriaeth i gleifion yn ôl eu hamgylchiadau.

Datblygwyd lleoliadau Cerbydau Ymateb Cyflym ar draws yr ardal ac mae system wedi'i rhoi ar waith i ddarparu cymorth clinigol amserol ar gyfer argyfyngau sy'n bygwth bywydau.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Beth oedd yr incwm net a oedd yn deillio o bresgripsiynau yn y blynyddoedd 2003-4, 2004-5, 2005-6 a 2006-7? (WAQ50317)

**Edwina Hart:** Caiff y wybodaeth hon ei chynhyrchu bob blwyddyn yng Nghyfrifon Cryno GIG (Cymru) ac mae ar gael i'r cyhoedd.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Faint o eitemau a roddwyd ar bresgripsiwn ym mhob un o'r deng mlynedd rhwng 1986-7 a 1996-7? (WAQ50318)

**Edwina Hart:** Nid yw Atebion Iechyd Cymru yn cadw data am nifer yr eitemau presgripsiwn a gafodd eu dosbarthu cyn mis Ebrill 2002.

**Jenny Randerson (Canol Caerdydd):** Pa amcan a wnaed o'r eitemau a gaiff eu rhoi ar bresgripsiwn yn 2007-8 a 2008-9? (WAQ50319)

**Edwina Hart:** Disgwylir i'r twf amcangyfrifedig ar gyfer 2007-08 a 2008-09 barhau yn fras yn gyson â'r tueddiadau presennol gydag amrywiadau o fewn hynny.